TAG UG/Uwch

2100N80-1 – UG NEWYDD

# HANES – UNED 2

## ASTUDIAETH FANWL 8

## Yr Almaen: Democratiaeth ac Unbennaeth, tua 1918-1945
## Rhan 1: Weimar a'i sialensiau, tua 1918-1933

P.M. DYDD MERCHER, 25 Mai 2016

1 awr 45 munud a'ch amser estynedig

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

**Yn ogystal â'r papur hwn, bydd angen llyfryn ateb 12 tudalen.**

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

**Defnyddiwch inc neu feiro du neu eich dull arferol.**

**Atebwch y DDAU gwestiwn.**

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

**Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn.**

**Dylech dreulio tua 50 munud ar bob cwestiwn.**

**Mae'n bosibl bod y ffynonellau a'r dyfyniadau a ddefnyddir yn yr uned hon wedi'u diwygio neu eu haddasu o'r gwaith cyhoeddedig a nodir er mwyn eu gwneud yn fwy dealladwy.**

# UNED 2

## ASTUDIAETH FANWL 8

## Yr Almaen: Democratiaeth ac Unbennaeth, tua 1918–1945

## Rhan 1: Weimar a'i sialensiau, tua 1918–1933

**Atebwch y DDAU gwestiwn.**

## CWESTIWN 1

**Astudiwch y ffynonellau canlynol ac atebwch y cwestiwn sy'n dilyn.**

### FFYNHONNELL A

Ymysg yr adfeilion llawn mwg, rhwng y pyllau o waed a chyrff y Spartaciaid gafodd eu llofruddio, mae'r rheini sydd wedi'u galw yn arwyr 'trefn' yn brysio i sefydlu eu rheolaeth. Mae llywodraeth Weimar yn mynd ati ag egni gwyllt i gyfnerthu ei grym. O hyn ymlaen bydd yn rheoli â'r fidog (BAYONET). Dyma sut mae Ebert, Scheidemann a'r lleill yn gobeithio ailsefydlu eu grym llywodraethu, gyda chymorth materol y lluoedd arfog gwrth-chwyldroadol, y Freikorps a'r Fyddin. Heddiw mae'n amlwg mai â'r fidog yn unig mae Ebert a Scheidemann yn gallu rheoli. Mae'r bourgeoisie yn gwneud ei orau glas i adfer yr 'hen drefn'.

[Rosa Luxemburg, un o brif Gomiwnyddion yr Almaen, yn ysgrifennu mewn erthygl o'r enw 'TŶ O GARDIAU', wedi'i chyhoeddi yn Y FANER GOCH, papur newydd Comiwnyddol (Ionawr 1919)]


## FFYNHONNELL B

Mewn sawl ffordd mae Cynghrair y Cenhedloedd yn etifedd ac yn ysgutor (EXECUTOR) cytundebau 1919. Allan o'r cytundebau hyn mae llawer o wahaniaethau a phroblemau wedi codi yn y gorffennol rhwng y Cynghrair a'r Almaen. Gobeithiaf y bydd ein cydweithredu yn y Cynghrair bellach yn ei gwneud yn haws trafod y gwahaniaethau hyn a datrys y problemau hyn. Hyd yn oed cyn iddi fynd i mewn i'r Cynghrair, ceisiodd yr Almaen hyrwyddo cydweithredu cyfeillgar. Mae'r cam a gymerodd yr Almaen ac a arweiniodd at Gytundeb Locarno yn brawf o hyn. Mae llywodraeth yr Almaen yn benderfynol o ddilyn y polisi hwn yn gadarn, ac mae'n falch o weld bod y syniadau hyn, a gafodd wrthwynebiad bywiog yn yr Almaen ar y dechrau, erbyn hyn yn cael eu gwreiddio'n ddwfn yng nghydwybod pobl yr Almaen.

[Gustav Stresemann, Gweinidog Tramor yr Almaen, mewn araith i Gynghrair y Cenhedloedd (Medi 1926)]

## FFYNHONNELL C

DAS TOTE PARLAMENT




**[Cartŵn gyda'r capsiwn: 'Y Senedd Farw', wedi'i gyhoeddi yn KLADDERADATSCH, cylchgrawn dychanol Almaeneg, ym mis Hydref 1930. Mae'n dangos Reichstag gwag sydd â dim i'w wneud, oherwydd bod Llywydd Gweriniaeth Weimar yn defnyddio Erthygl 48 y cyfansoddiad i lunio deddfau]**

**Gan gyfeirio at y ffynonellau a defnyddio'r hyn rydych chi'n ei ddeall am y cyd-destun hanesyddol, aseswch werth y tair ffynhonnell hyn i hanesydd sy'n astudio'r problemau oedd yn wynebu Gweriniaeth Weimar rhwng 1919 ac 1930. [30]**

## CWESTIWN 2

**Astudiwch y darnau canlynol ac atebwch y cwestiwn sy'n dilyn.**

## DEHONGLIAD 1

**Apêl Hitler a grym ei bersonoliaeth oedd y prif reswm pam roedd y Natsïaid yn dal i gryfhau. Llwyddodd ef i fynd allan i ddinasoedd rhanbarthol yr Almaen ac ysgogi'n wleidyddol y bobl oedd wedi ymddieithrio (ALIENATED) oddi wrth y pleidiau sefydledig neu nad oedd ganddyn nhw brofiad go iawn o'r traddodiad democrataidd. Nid oedd Hitler yn rhan o'r dosbarthiadau gwleidyddol traddodiadol. Dyn y bobl oedd Hitler. Fel y byddai bob amser yn atgoffa ei wrandawyr, ei ymdrechion ei hun oedd wedi ei lusgo o ddinodedd (OBSCURITY) lleol i amlygrwydd cenedlaethol. Roedd e'n addo mynd â phroblemau ei gefnogwyr cyffredin a rhoi llwyfan cenedlaethol iddyn nhw.**

**[Richard Overy, hanesydd academaidd ac arbenigwr ar hanes modern Ewrop, yn ysgrifennu mewn erthygl o'r enw HITLER yn y cylchgrawn, MODERN HISTORY REVIEW(1989)]**

## DEHONGLIAD 2

**O ran dod â'r Natsïaid i rym, roedd digwyddiadau ar hap yn chwarae rôl fwy nag unrhyw weithredu gan arweinydd y Natsïaid ei hun. Pum mlynedd yn gynharach, roedd y Blaid Natsïaidd wedi bod yn ddraenen yn ystlys gwleidyddiaeth yr Almaen ond yn ddim mwy na hynny. Oherwydd digwyddiadau allanol, sef Cynllun Young i addasu taliadau iawndal yr Almaen, Cwymp Wall Street, a phenderfyniad cwbl diangen Bruning i gael etholiad yn ystod haf 1930, cafodd y Natsïaid eu rhoi ar y map gwleidyddol. Er ei bod yn ymddangos erbyn hynny nad oedd dyfodol addawol i ddemocratiaeth yn yr Almaen, roedd unbennaeth Natsïaidd dan Hitler yn ymddangos yn llawer llai tebygol na rhyw ffurf arall ar unbennaeth awdurdodaidd neu hyd yn oed frenhiniaeth wedi'i hadfer.**

**[Ian Kershaw, hanesydd academaidd ac arbenigwr ar yr Almaen Natsïaidd, yn ysgrifennu mewn llyfr arbenigol, HITLER (1991)]**

**Mae haneswyr wedi llunio dehongliadau gwahanol o'r rhesymau pam daeth y Natsïaid i rym. Dadansoddwch, gwerthuswch a defnyddiwch y ddau ddarn a defnyddio'r hyn rydych chi'n ei ddeall am y ddadl hanesyddol, i ateb y cwestiwn canlynol:**

**Pa mor ddilys yw'r safbwynt mai Hitler oedd yn bennaf cyfrifol am y ffaith bod y Natsïaid wedi dod i rym erbyn 1933? [30]**

**DIWEDD Y PAPUR**